

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


# Y Grŵp Cyngor Technegol

# Crynodeb lefel uchel o’r dystiolaeth ar gostau a manteision mesurau i fynd i’r afael â Covid-19 yng Nghymru a chamau lliniaru posibl

25 Tachwedd 2020







OGL © Hawlfraint y Goron 2020

# Y Grŵp Cyngor Technegol – Is-grŵp Niwed Economaidd-Gymdeithasol

# Crynodeb lefel uchel o'r dystiolaeth ar gostau a manteision mesurau fynd i'r afael â Covid-19 yng Nghymru a chamau lliniaru posibl

# 25 Tachwedd 2020

## Y Cyd-destun

Mae'r tabl sydd ynghlwm yn rhoi crynodeb lefel uchel o brif fanteision a chostau (gan gynnwys niwed economaidd-gymdeithasol) mesurau a chyfyngiadau a roddwyd ar waith hyd yma neu sy'n cael eu hystyried i'w gweithredu yn y dyfodol.

Mae'r crynodeb o niwed yn adlewyrchu consensws aelodau Is-grŵp Niwed Economaidd-Gymdeithasol y Grŵp Cyngor Technegol yn bennaf, ar sail eu hasesiad o'r sylfaen dystiolaeth sy'n esblygu. Mae hyn wedi cael ei ategu gan rywfaint o waith modelu sylfaenol gan Economegwyr Llywodraeth Cymru a oedd yn edrych ar yr effeithiau economaidd. Daw'r dystiolaeth ar fanteision gan Lywodraeth y DU[1] yn bennaf, ac mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth gryno am niwed. Ni chaiff dadansoddiad manylach na chyfeiriadau eu cynnwys yma ond maent ar gael os oes angen.

Rhaid cofio:

- Mae'r sylfaen dystiolaeth yn esblygu a gall y casgliadau newid.
- Mae cryfder y dystiolaeth yn amrywio ar draws manteision a chostau / niwed.
- Mae hi'n amhosibl asesu llawer o niwed yn fanwl gywir gyda rhifau; bydd ystodau a rhifau wedi'u talgrynnu'n aml yn fwy priodol. Mewn rhai achosion, mae'n ymddangos ei bod yn amhosibl mesur y tu hwnt i arwydd eang o raddfa.
- Yn benodol, mae hi'n aml yn amhosibl asesu risg ac ansicrwydd yn fanwl gywir (yn enwedig y rheini sy'n gysylltiedig ag epidemig nad oes modd ei reoli neu ddirwasgiad mawr).
- Yn aml, mae hi bron yn amhosibl gwybod yn union pa niwed sy'n deillio'n uniongyrchol o gyfyngiadau gan nad ydym yn gwybod sut y gallai ymddygiad y boblogaeth fod wedi newid mewn ymateb i fwy o achosion, pe na bai'r mesurau rheoli wedi cael eu rhoi ar waith.
- Bydd yr effeithiau'n amrywio ar draws grwpiau cymdeithasol a dros amser. Mae'r pwys cymharol a roddir ar wahanol niwed fel y maen nhw'n effeithio ar wahanol grwpiau yn siŵr o adlewyrchu barn ar werth ac felly mae'n fater o ddewis gwleidyddol. Os yw'n ymarferol, dylid ystyried natur a chwmpas y

[1] Yma: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/925856/S0770_NPIs_table__pivot_.pdf

cyfyngiadau mewn perthynas ag anghydraddoldebau sydd eisoes yn bodoli a'r effaith anghyfartal bosibl ar y rheini sydd eisoes dan anfantais.

- Bydd lefel y niwed a'r angen am fesurau lliniaru yn dibynnu ar y cymysgedd o gyfyngiadau a roddir ar waith ac mae'n debygol o amrywio'n fawr gan ddibynnu ar hyd y cyfyngiadau a maint yr ardal lle cânt eu rhoi ar waith.

Mae aelodau'r Is-grŵp hefyd wedi asesu effaith bosibl mesurau lliniaru ar leihau niwed. Yn gyffredinol, dim ond effeithiau cyfyngedig y mae disgwyl i fesurau lliniaru eu cael – ac eithrio o bosibl lle mae elfen fawr o gyllid ychwanegol ar gael o ganlyniad i benderfyniadau Llywodraeth y DU ar bolisi cyllidol.

## Arfarnu opsiynau

**Mae arfarnu opsiynau'n dibynnu ar bennu'r strategaeth sy'n cael ei ffafrio ymlaen llaw a chynnal asesiad realistig o sut mae'r pandemig yn debyg o ddatblygu yn y dyfodol**.

Bydd manteision a chostau'r opsiynau'n amrywio gan ddibynnu ar y cyd-destun strategol a ddefnyddir i'w rhoi ar waith. Ar wahân i lwyddo i leihau'r trosglwyddiad dros y tymor byr (lleihau "R"), bydd y manteision a'r costau'n dibynnu: ar nifer yr achosion o'r clefyd a'i ddifrifoldeb; ar y rhagolygon ar gyfer brechu; ar lefel yr amddiffyniad sydd ar gael i'r rheini sydd fwyaf agored i'r clefyd; ar lwyddiant mesurau i reoli'r pwysau yn y system iechyd.

Yn benodol, dyweder pan gyflwynir cyfnod atal byr mewn ffordd sy'n debygol iawn o osgoi'r angen am becyn o gyfyngiadau dilynol, ond llawer mwy difrifol neu estynedig, mae'r manteision yn debygol iawn o fod yn fwy na'r costau ac ni fydd unrhyw "gyfnewid" rhwng iechyd a'r economi. Ar y llaw arall, os gohirio niwed am gyfnod byr fyddai'r unig effaith, byddai'r achos o blaid yn wannach o lawer. Mewn proses o wneud penderfyniadau rhesymegol, dylid ond cyflwyno cyfyngiad unigol os bydd manteision gwneud hynny'n fwy na'r niwed (wedi'i liniaru). Dylid dewis cyfres o gyfyngiadau sy'n golygu mod mwy o fanteision na niwed wedi'i liniaru (neu, eu bod yn gyfwerth, yn hytrach nag "anfanteision" neu "gostau").

Yn ogystal â phwysigrwydd y cyd-destun strategol, bydd costau a manteision yn dibynnu ar sut caiff y mesurau eu cyfuno. Am y naill reswm a'r llall, dim ond cyfraniad rhannol at arfarnu opsiynau yw'r wybodaeth sydd yn y tabl ar fesurau unigol.

**Un rhagofyniad hanfodol arall ar gyfer arfarnu opsiynau yw rhagamcan o'r canlyniadau iechyd (yn enwedig marwolaethau disgwyliedig) y disgwylir iddynt ddeillio o bob opsiwn a chymhariaeth â'r hyn a ddisgwylid dan "busnes fel arfer" (hy y sefyllfa bresennol). Gallwn ddechrau gwneud hyn drwy edrych ar fodelau sy'n amcangyfrif nifer y marwolaethau covid dan wahanol senarios, ac amcangyfrif nifer y blynyddoedd bywyd a addaswyd yn ôl ansawdd y byddai hyn yn eu cynrychioli.**

Fodd bynnag, gall y dystiolaeth sy'n cael ei chrynhoi yn y tabl isod gyfrannu at ganfod ac arfarnu opsiynau. Yn benodol, gallai fod o gymorth wrth gymharu, yn fras o leiaf,

gostau economaidd-gymdeithasol cyfuniadau gwahanol o fesurau sy’n darparu lefelau tebyg o fantais.

Mae’n debyg na ddylai arfarnu opsiynau mewn achos cymhleth fel hyn geisio dod o hyd i un opsiwn gorau. Mae llawer o’r dystiolaeth feirniadol yn ansoddol ac, fel y nodwyd uchod, mae’r gwahanol gyfaddawdu y mae’n rhaid ei wneud yn dibynnu ar farn ar werth. Yn hytrach, pwrpas yr arfarniad yw nodi costau a manteision opsiynau eraill mewn ffordd mor dryloyw â phosibl er mwyn cynorthwyo’r broses o wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Wrth wneud penderfyniadau mewn ansicrwydd, gall wneud synnwyr lledaenu’r risg drwy fabwysiadu nifer o bolisïau amrywiol – tebyg i fuddsoddwyr yn lledaenu eu portffolio.

## Mesurau lliniaru

Mae’r pandemig yn achosi niwed cymdeithasol ac economaidd enfawr, ac mae tystiolaeth ryngwladol yn tueddu i awgrymu bod cydberthynas â chynnydd yn nifer yr achosion o Covid-19 a marwolaethau. Gall cyfyngiadau ar weithgareddau cymdeithasol ac economaidd sy’n rheoli’r pandemig arwain at fanteision economaidd-gymdeithasol mewn termau net – hynny yw, gall y manteision economaidd-gymdeithasol yn sgil lleihau graddfa’r pandemig fod yn fwy na’r rheini sy’n deillio o gyfyngu ar weithgareddau.

Fodd bynnag, dim ond os caiff y cyfyngiadau eu gosod yn y ffordd orau mae hyn yn wir. Mae cyfaddawdu rhwng cyfyngiadau ac mae’n bosibl os ydynt naill ai’n annigonol neu’n ormodol ac yna mae’n bosibl na fydd y cydbwysedd cyffredinol o niwed gymaint ag y gallai fod. Mae taro’r cydbwysedd iawn yn dibynnu ar ba mor gyffredin yw’r clefyd, pa mor gyflym mae’n lledaenu, pa mor ddifrifol yw’r achosion, effeithiolrwydd (gwella) triniaeth ac, yn enwedig, natur ac effeithiolrwydd y cyfyngiadau a osodir a’r mesurau eraill sy’n cael eu rhoi ar waith. Er enghraifft, gallai gwisgo masg olygu llai o niwed economaidd-gymdeithasol na rhai dulliau eraill o sicrhau gostyngiad tebyg mewn lledaeniad. Mae hi’n hanfodol felly arfarnu ymyriadau ar sail tystiolaeth, gan ystyried y manteision iechyd net yn y tymor byr a’r tymor hirach a’r ystod lawn o niwed economaidd-gymdeithasol.

Mae difrifoldeb y pandemig yng Nghymru wedi golygu y bu’n rhaid cyflwyno lefel uchel o gyfyngiadau. Mae lefel a natur y cyfyngiadau a osodwyd a’r cyfnod roeddent yn angenrheidiol yn ei gwneud yn anodd iawn lliniaru lefel y niwed sy’n cael ei achosi. Fodd bynnag, mae Atodiad 1 yn cynnwys amcangyfrif o effaith economaidd wythnosol cau sectorau penodol yn llwyr yn debyg i'r cyfnod atal byr (£133m). Amcangyfrifir bod effaith y pandemig ar economi Cymru dros y tymor canolig (5 mlynedd) oddeutu £25b (mae’r ffigurau hyn yn seiliedig ar ffigurau Gorffennaf 2020 y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol).

Ac eithrio lle gwneir buddsoddiad sylweddol a pharhaus gan Lywodraeth y DU, dim ond effaith isel i ganolig a gaiff y rhan fwyaf o’r mesurau lliniaru ar eu cohortau arfaethedig. Hyd yn oed pan fydd buddsoddiad llywodraeth ganolog yn cael effaith fawr i ddechrau, megis lleihau lefelau methdaliad a diweithdra, nid yw hyn yn

gynaliadwy yn y tymor hirach a bydd llai o elw wrth i egni arferol yr economi gael ei lesteirio ac wrth i'r twf tymor hirach mewn cynhyrchiant a chyflogau gael ei danseilio.

Er bod gwahaniaeth barn ynghylch cynaliadwyedd benthyca Llywodraeth y DU, gyda'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid, er enghraifft, yn dadlau bod lefel uchel o fenthyca yn gynaliadwy dros y tymor byr, ni ddylid tybio y gall hyn barhau am gyfnod amhenodol. Mae'n hanfodol bod costau a manteision tebygol unrhyw fesurau lliniaru yn cael eu harfarnu'n ofalus er mwyn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael mor effeithiol â phosibl.

Mae'r dull presennol o weithredu - cyfyngiadau symud - llacio - cyfyngiadau symud - llacio - yn achosi niwed cymdeithasol ac economaidd sylweddol yn y tymor hir nad oes modd ei liniaru ac mewn ambell amgylchedd bydd y niwed hwn yn barhaol.

| Cyfyngiad | Manteision | Niwed | Mesurau lliniaru | Effaith bosibl y mesurau lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| **1.**<br>Cau busnesau, llety, lleoliadau neu swyddfeydd am gyfnodau amrywiol, gan gynnwys "cyfnodau atal byr".<br><br>Gallai hyn gynnwys 'siopa nad ydynt yn rhai hanfodol', lletygarwch: tafarndai a bwytai, campfeydd a chanolfannau hamdden, canolfannau cymunedol, mannau addoli, canolfannau celfyddydol neu ddiwylliannol fel theatrau neu unrhyw le arall lle mae'r clefyd yn cael ei drosglwyddo. | • Manwerthu nad yw'n hanfodol: Effaith isel (**hyder isel-canolig**). Effaith fach iawn ar werthoedd R. Rhywfaint o dystiolaeth gyfyngedig o drosglwyddo o Tsieina. Cyfnod byr a'r gallu i gadw pellter yn y rhan fwyaf o leoliadau + gorchuddion wyneb yn debygol o liniaru'n dda.<br>• Bariau a thafarndai: Effaith ganolig (**hyder canolig**). Gostyngiad posibl mewn Rt o 0.1-0.2, er ei bod hi'n anodd iawn rhoi amcangyfrif manwl gywir. Mae'r risg amgylcheddol mewn bariau, tafarndai ac ati yn debygol o fod yn uwch nag mewn llawer o leoliadau dan do eraill oherwydd bod pobl yn agos at ei gilydd a hynny am gyfnod hir, nid yw cwsmeriaid yn gwisgo gorchudd wyneb, siarad yn uchel sy'n gallu cynhyrchu mwy o aerosolau. Mae rhai lleoliadau wedi'u hawyru'n wael, yn enwedig yn y gaeaf. Mae yfed alcohol yn effeithio ar ymddygiad.<br>• Mae nifer o adroddiadau anecdotaidd am frigiadau o achosion sy'n gysylltiedig â bariau yn y DU, yn Ewrop ac yn UDA. Mae adroddiad gan Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy yn awgrymu bod y rheini sy'n cael prawf positif ddwywaith yn fwy tebygol o fod wedi bwyta mewn bwyty. Mae astudiaeth rheoli achosion PHE hefyd yn nodi bod ymweld â lleoliadau adloniant yn ffactor risg.<br>• Cyrffyw: Yn debygol o gael effaith ymylol. (**hyder isel**.)<br>• Mae caniatáu i gwsmeriaid eistedd y tu allan yn unig yn debygol o fod yn llawer llai o risg.<br>• Mae tafarndai a bariau gwlyb wedi cael eu cysylltu â brigiadau o achosion yng Nghymru.<br>• Campfeydd, canolfannau hamdden a ffitrwydd: Effaith isel i ganolig (**hyder canolig**). Gostyngiad posibl mewn Rt o hyd at 0.1, er ei bod hi'n anodd iawn rhoi amcangyfrif manwl | • Bydd niwed economaidd tymor byr penodol yn dod i'r amlwg drwy incwm is a mwy o ddiweithdra, a fydd yn gymesur i'r cyfnod pan fydd pethau ar gau. Maes o law, bydd yr effeithiau hyn yn cael effaith niweidiol ar iechyd ac ar lesiant.<br>• Wrth gwrs, bydd yr effeithiau hyn yn amrywio yn dibynnu ar y sectorau yr effeithir arnynt a pha mor hir bydd y cyfyngiadau ar waith. Mae gwaith modelu'n gallu rhoi darlun o drefn maint posibl, ond bydd rhywfaint o ansicrwydd ynghlwm wrth hynny.<br>• Er enghraifft:<br>  o Mae gwaith modelu'n dangos y gallai "cyfnod atal byr" pythefnos o hyd yng Nghymru (sy'n effeithio'n bennaf ar sectorau lletygarwch, hamdden a siopau nad ydynt yn rhai hanfodol) olygu cost gwerth ychwanegol gros o £200m (hyd yn oed ar ôl caniatáu ar gyfer cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU);<br>  o ar gyfraddau'r Llyfr Gwyrdd, byddai defnyddio'r lefel hon o adnoddau yn "cyfiawnhau" arbed oddeutu 350 o fywydau deng mlynedd.<br>  o gallai'r niwed economaidd-gymdeithasol mesuradwy sy'n gysylltiedig â'r gostyngiad hwn mewn incwm dros y tymor byr, canolig a hir gynnwys colli dros 30 o fywydau (hy marw'n gynamserol);<br>  o gallai'r blynyddoedd bywyd a addaswyd yn ôl ansawdd a gollir fod oddeutu 1,000 o flynyddoedd bywyd a addaswyd yn ôl ansawdd a fyddai, drwy eu prisio ar gyfraddau'r Llyfr Gwyrdd, yn cyfateb i £60 miliwn (sydd, wrth gwrs, yn ychwanegol at yr effaith uniongyrchol ar werth ychwanegol gros a nodir uchod);<br>  o gallai eithrio siopau nad ydynt yn rhai hanfodol o'r cyfnod atal byr leihau'r costau hyn tua chwarter.<br>• Gallai pythefnos o gyfnod atal byr o'r un math olygu bod diweithdra'n codi dros 600, dim ond o ganlyniad i roi'r gorau i greu swyddi. Mae ymchwil yn dangos bod diweithdra'n cael effaith negyddol ddifrifol ar lesiant sydd â gwerth sy'n fwy o lawer na cholli incwm. Er enghraifft, gellid prisio bod yr effaith oddeutu £10 miliwn i'r unigolion yr effeithir arnynt, cyn ystyried costau cymdeithasol ehangach.<br>• Mae ansicrwydd (gan gynnwys cyfyngiadau yn y dyfodol ac ynghylch hyd a lled y newidiadau mwy parhaol sy'n cael eu cyflymu gan y pandemig) ynddo'i hun yn niweidio'r economi, ac yn debygol | • Optimeiddio hyd y tarfu a graddfa ofodol y cyfyngiadau ar sail barn gytbwys gan sicrhau cymariaethau tebyg-i-debyg sy'n cwmpasu amrywiaeth o ganlyniadau, nid dim ond senarios achos gwaethaf rhesymol ar gyfer yr epidemig (gan gydnabod yr un pryd y risgiau penodol sy'n gysylltiedig ag epidemig nad oes modd ei reoli.<br>• Yn gyffredinol, cau ar raddfa fwy gydag epidemig nad oes modd ei reoli).<br>• Yn gyffredinol, mae'n debygol y bydd cau ar raddfa fwy neu fwy o gyfyngiadau dros gyfnod sefydlog a chymharol fyr yn debygol o achosi llai o niwed na chyfyngiadau ar raddfa lai ond pen agored.<br>• Efallai fod manteision o ganlyniad i roi mwy o amser i fusnesau baratoi ar gyfer cyfyngiadau, drwy eu cyhoeddi ymlaen llaw, er enghraifft er mwyn lleihau faint o fwyd ffres sy'n cael ei wastraffu ac er mwyn addasu cadwyni cyflenwi.<br>• Manteision posibl cyfyngiadau sydd wedi cael eu targedu a'u gorfodi'n gryf ar rai mathau o gyflogaeth a/neu arferion (gan gynnwys oriau agor) mewn sectorau er mwyn osgoi gorfod cau'n llwyr.<br>• Bydd canlyniadau economaidd niweidiol yn cael eu lliniaru'n rhannol drwy gefnogi busnesau i gadw swyddi a chynnal sgiliau arbenigol ar yr un pryd ag ysgogi creu swyddi newydd, gan ganolbwyntio ar bobl ifanc, yn enwedig y rheini o grwpiau difreintiedig. (Sylwer y bydd effeithiau niweidiol yn deillio o ardaloedd sy'n rhwym wrth gyfyngiadau.) Fodd bynnag, mae camau gweithredu o'r fath yn cael eu cyfyngu gan yr her o nodi swyddi "hyfyw" a fforddiadwyedd a chyfyngiadau a osodir gan gapasiti cyllidol Llywodraeth Cymru a rheolau cyllidol llywodraeth y DU.<br>• Mae gan fwy o gyfleoedd (ail)hyfforddi ran i'w chwarae.<br>• Yn gyffredinol, mae'n debyg mai effeithiau cymharol fach a gaiff y mesurau lliniaru a fydd yn cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i wneud iawn am effeithiau tymor byr a thymor hir cau busnesau'n eang ac yn hir a'r dirwasgiad dwfn cysylltiedig. | • Cyfyngiadau hirdymor parhaus fydd yn cael yr effaith fwyaf ar y rhan fwyaf o bobl. Mae ceisio lliniaru graddfa a hyd cyfnodau o'r fath yn debygol o gael effaith amlwg yn y tymor byr ac aseswyd bod ei effaith yn un ganolig i uchel.<br>• Bydd cost uchel ynghlwm wrth gyfyngiadau penagored parhaus a hyd yn oed yn y tymor byr bydd hyn yn effeithio ar hyfywedd tymor hirach busnesau. Mae'n bosibl i unrhyw fesur lliniaru gael effaith fawr yn y tymor byr ac asesir bod yr effaith yn un ganolig i uchel gan ddibynnu ar lefel y mesur lliniaru.<br>• Mae busnesau'n ceisio dod o hyd i ffyrdd eraill o weithredu ar raddfa lai fel cynnig gwasanaeth tecawê a chynnal digwyddiadau diwylliannol awyr agored. Gellid hwyluso hyn ymhellach er mae'n debyg mai isel fydd effaith liniaru gyffredinol hyn.<br>• Cydnabyddir yn gyffredinol bod cyfnodau byrrach o gyfyngiadau'n llai niweidiol ac asesir bod eu heffaith yn un ganolig i uchel gan ddibynnu ar lefel y mesurau lliniaru.<br>• Bydd targedu cyfyngiadau yn lliniaru rhywfaint o niwed ar y rheini y tu allan i'r ardaloedd targed: effaith ganolig.<br>• Gwelwyd bod llawer o gyllid gan y llywodraeth i fynd i'r afael â'r effeithiau niweidiol ar fusnesau ac ar swyddi yn cael effaith fawr i ddechrau. Gall y ddwy her o ran hyfywedd a fforddiadwyedd yn y tymor hirach olygu bod y lefel hon o gymorth yn anymarferol.<br>• Mae'n debyg mai effaith fach yn unig a gaiff mwy o gyfleoedd hyfforddi yn y tymor byr: effaith isel.<br>• Gallai cynllunio gwell gael effaith isel - canolig gan ddibynnu ar amserlenni<br>• Mae camau gweithredu a gymerir gan Lywodraeth Cymru yn unig yn debygol o gael effaith fach ar ddirwasgiad dwfn ac aseswyd eu bod yn isel i ganolig (heb ragor o ymyriadau ariannol sylweddol gan Lywodraeth y DU). |

| Cyfyngiad | Manteision | Niwed | Mesurau lliniaru | Effaith bosibl y mesurau lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| | gywir. Rhywfaint o dystiolaeth o ddata brigiadau o achosion ee yn Korea sy'n gysylltiedig â dosbarth ffitrwydd. Risgiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig ag arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml mewn campfeydd, cynhyrchu mwy o aerosolau a chyfraddau anadlu uwch oherwydd gweithgarwch aerobeg.<br><br>• Mae gwaith modelu ymyriadau polisi covid gan Brifysgol Abertawe (fel y cyfnod atal byr 17 diwrnod a weithredwyd ar 23ain Hydref 2020 a oedd wedi'i fodelu i ddod â Rt i lawr o tua 1.3 i oddeutu 0.8 am oddeutu pythefnos) yn awgrymu y gallai'r ymyriadau hyn atal neu ohirio oddeutu 800-1,300 o farwolaethau uniongyrchol o covid. Gallai hyn fod oddeutu 5,800 – 9,400 o flynyddoedd bywyd a addaswyd yn ôl ansawdd, mae Trysorlys y DU yn prisio hyn ar £60,000 fesul blwyddyn bywyd a addaswyd yn ôl ansawdd a fyddai'n rhoi £350m - £560m. Mae hyn yn tybio bod pob marwolaeth covid yn colli 9.97 mlynedd o fywyd ar gyfartaledd ar sail dadansoddiad SAIL a oedd yn cymharu pobl a oedd yn marw o COVID-19 â'u disgwyliad oes cyfartalog wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio tabl cyfnod oes oed-rhyw penodol. Rydym wedyn yn tybio bod ansawdd bywyd sy'n gysylltiedig ag iechyd tua 0.726 ar gyfer y deng mlynedd hyn o fywyd, sy'n rhoi 7.24 o flynyddoedd bywyd a addaswyd yn ôl ansawdd; mae hyn yn seiliedig ar ansawdd bywyd cyfartalog y DU sy'n gysylltiedig ag iechyd mewn pobl 75 oed a hŷn.<br>• Fodd bynnag, dim ond prisiad uniongyrchol o'r blynyddoedd bywyd hynny a gollwyd i covid yw hwn; nid yw'n cynnwys blynyddoedd bywyd a addaswyd yn ôl ansawdd anuniongyrchol a gollir oherwydd diffyg gofal iechyd, er enghraifft oherwydd bod llawdriniaethau | o ymestyn y dirwasgiad. Os oes sicrwydd ynghylch amseriad a hyd y cyfnod y bydd cyfyngiadau ar waith, mae'n debygol y bydd llai o ddifrod economaidd oherwydd y cyfyngiadau.<br>• Mae rhywfaint o dystiolaeth dros dro yn awgrymu y gallai cyfyngiadau llym iawn ar faint sy'n cael defnyddio lleoliadau (< 20% efallai) a'u bod yn cael eu dilyn yn gaeth, arwain at gyflawni rhan fawr o fanteision cau'r sector lletygarwch gan leihau costau'n sylweddol.<br>• Bydd llai o weithgarwch cymdeithasol yn lleihau llesiant ac yn niweidio iechyd meddwl – ac o bosibl iechyd corfforol.<br>• Mae effeithiau niweidiol yn gronnus ac wedi'u gwasgaru'n ofodol o ganlyniad i'r dirwasgiad – ni fydd modd priodoli llawer ohonynt yn uniongyrchol i gau/cyfyngiadau penodol.<br>• Mae natur cyflogaeth yn y sectorau yr effeithir fwyaf arnynt yn golygu y bydd yr effeithiau'n tueddu i waethygu anghydraddoldebau – mae'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf yn tueddu i fod ar gyflogau isel, mewn cyflogaeth ansicr, a phobl ifanc.<br>• Yn fwy cyffredinol, mae dirwasgiadau'n tueddu i effeithio'n fwyaf difrifol ar bobl sydd eisoes "dan anfantais".<br>• Mae nifer fawr o swyddi hefyd a allai fod mewn perygl ac efallai y bydd gweithwyr yn dewis ailhyfforddi i ddod o hyd i waith mewn diwydiannau eraill – felly gallai busnesau golli staff sydd â sgiliau sector-benodol a allai niweidio eu rhagolygon tymor hir.<br>• Bydd effeithiau "creithio" tymor hir / oes ar ganlyniadau economaidd-gymdeithasol yn arwain at incwm is, risg uwch o ddiweithdra, iechyd gwael a marwolaethau cynamserol. Dim ond rhai o'r effeithiau hyn fydd yn cael eu nodi mewn amcangyfrifon meintiol o'r math a nodir uchod. Er enghraifft: gallai achos gwaethaf rhesymol o ran effeithiau creithio olygu bod hyd at 15-20 o bobl ifanc sy'n ymuno â'r farchnad lafur bob wythnos yn cael marwolaeth gynamserol yn y pen draw oherwydd effeithiau dirwasgiad.<br>• Bydd effeithiau hirdymor o'r fath unwaith eto'n tueddu i gynyddu anghydraddoldeb oherwydd bod effeithiau niweidiol yn fwyaf tebygol o effeithio ar bobl o gefndiroedd tlotach. | • Mae busnesau wedi ailadrodd yr angen i allu cynllunio'n well nid dim ond diwrnodau ymlaen llaw ond wythnosau neu fisoedd ymlaen llaw boed hynny ynghylch cyllid neu ynghylch gosod cyfyngiadau | |

| Cyfyngiad | Manteision | Niwed | Mesurau lliniaru | Effaith bosibl y mesurau lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| | dewisol wedi'u canslo, neu golli cynhyrchiant, o ran cynhyrchu ac enillion aelwydydd, na chostau eraill gweithgareddau ysbyty, neu flynyddoedd bywyd a addaswyd yn ôl ansawdd sy'n gysylltiedig â morbidrwydd gan gynnwys covid hir, felly byddai'r £350m i £560m hwn yn debygol o gynrychioli pen isel gwir gostau economaidd yr achosion covid hyn y gellid eu hatal drwy ymyriadau polisi. Dim ond cael eu gohirio gaiff marwolaethau, ond wrth iddi ddod yn fwy tebygol bod brechlyn sy'n gweithio, mae hi'n fwy tebygol y bydd pobl a allai fod wedi marw o covid yn byw yn hirach. | | | |
| **2.** Cau ysgolion. | • Yn lleihau Rt 0.2 – 0.5 (**hyder isel**). Mae cryn ddadlau ynghylch effaith ysgolion ar drosglwyddo – efallai fod llawer o'r manteision yn deillio o'r ffaith bod oedolion yn gwneud llai oherwydd bod ysgolion ar gau. Mae'r dystiolaeth wedi datblygu yn ystod yr wythnosau diwethaf o ran perthynas ysgolion â throsglwyddo'r feirws gyda data arolwg y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn awgrymu mai plant yn aml yw'r achos cyntaf mewn aelwyd a bod lledaeniad asymptomatig yn broblem fawr. Mae'r risg o drosglwyddo'r haint yn debygol o gynyddu gydag oedran y plant. | • Mae tystiolaeth gref o amrywiaeth o niwed economaidd-gymdeithasol i blant dros y tymor byr a'r tymor hir (gan gynnwys effeithiau gydol oes ar iechyd a llesiant), sy'n debygol o fod yn gymesur â hyd y cau.<br>• Mae gwaith modelu'n gallu rhoi darlun o drefn maint rhai effeithiau ond bydd llawer o ansicrwydd ynghlwm wrth hynny.<br>• Er enghraifft:<br>○ gallai cau ysgolion cynradd am wythnos arwain at enillion economaidd is i addysg (incwm oes) sydd werth tua £70 miliwn ar hyn o bryd.<br>○ gallai cau ysgolion cynradd am wythnos arwain at enillion economaidd is i addysg (incwm oes) sydd werth tua £50 miliwn ar hyn o bryd.<br>• Ceir tystiolaeth gref bod niwed yn effeithio ar blant difreintiedig mewn ffordd anghymesur, a phlant o nifer o grwpiau lleiafrifol hefyd.<br>• Mae niwed yn debygol o gynnwys mwy o "brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod" ac mae ymchwil yn dangos bod hyn yn gallu arwain at drawma a phroblemau ymlyniad, a niwed difrifol dros y tymor hir.<br>• Mae niwed cymdeithasol ac economaidd anuniongyrchol yn deillio o'r tarfu ar gyflogaeth rhieni, gydag effeithiau gwahanol rhwng dynion a menywod ac o ran lefelau incwm, ac mae'n bosibl | • Mesurau i wella gwasanaethau iechyd meddwl plant – ond materion yn ymwneud ag amseroldeb / cyflenwi / fforddiadwyedd a chyfyngiadau oherwydd capasiti cyllidol Llywodraeth Cymru a rheolau cyllidol llywodraeth y DU.<br>• Mesurau i fynd i'r afael â materion sylfaenol sy'n ymwneud â rhieni, er enghraifft mynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol neu gyffuriau a mynd i'r afael ag anhwylderau iechyd meddwl – ond materion sy'n ymwneud ag amseroldeb / cyflenwi / fforddiadwyedd a chyfyngiadau oherwydd capasiti cyllidol Llywodraeth Cymru a rheolau cyllidol llywodraeth y DU.<br>• Mesurau i hyrwyddo "dal i fyny", drwy lai o wyliau ysgol a/neu ddefnyddio tiwtora, er nad yw'n debygol o fod yn effeithiol wrth fynd i'r afael ag oedi datblygiad plant ifanc.<br>• Gall cyngor ac arweiniad i rieni chwarae rhan ond nid yw eu heffeithiolrwydd yn glir.<br>• Oni bai eu bod yn cael eu targedu'n effeithiol, nid yw llawer o'r mesurau lliniaru'n debygol o leihau anghydraddoldebau, ac mae'n bosibl iddynt eu cynyddu. Dylai lefel y niwed a'r cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer mesurau lliniaru olygu mai'r dewis olaf un yw cau ysgolion (oni bai fod hynny'n cael ei wneud am gyfnod cyfyngedig iawn). | • Rhaid cael cyllid ychwanegol i fynd i'r afael â rhagor o broblemau iechyd meddwl: effaith isel i ganolig<br>• Rhaid cael cyllid ychwanegol i fynd i'r afael â phroblemau sylfaenol rhieni: effaith isel i ganolig<br>• Rhaid cael cyllid ychwanegol i leihau effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod: effaith isel i ganolig<br>• Mae'r effaith gyffredinol yn debygol o fod yn fach ac ystyried y blwch mewn darpariaeth addysg sydd eisoes yn cael ei ddioddef gan blant ifanc: ar y sail hon mae'r effaith yn isel.<br>• Caiff cyngor ac arweiniad ei roi i rieni mewn nifer o feysydd ond mae'r nifer sy'n manteisio ar hyn yn aml yn amrywio: effaith isel.<br>• Mae hi'n hanfodol targedu'r mesurau lliniaru'n effeithiol er mwyn cael yr effaith fwyaf o'r arian a ddefnyddir - heb hyn, bydd yr effaith yn isel. |

| Cyfyngiad | Manteision | Niwed | Mesurau lliniaru | Effaith bosibl y mesurau lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| | | y bydd canlyniadau niweidiol tymor hirach yn deillio o hyn.<br>• Effeithiau cymdeithasol negyddol sylweddol ar bobl ifanc, gyda phryderon penodol yn cael eu mynegi am fwy o unigrwydd a llesiant meddyliol, ac ansicrwydd ynghylch materion fel arholiadau a chymwysterau ac ansawdd addysg. | | |
| **3.** Canllawiau i argymell mynediad cyfyngedig at y system iechyd a/neu ofal. | • Lleihau pwysau nad ydyn nhw'n ymwneud â covid ar y system iechyd a'r tebygolrwydd o drosglwyddiad nosocomiaidd. | • Mae'r prif niwed yn ymwneud yn uniongyrchol ag iechyd ("niwed 2") ac nid yw'n cael sylw yma.<br>• Niwed economaidd-gymdeithasol anuniongyrchol sy'n ymwneud â llai o allu i weithio oherwydd bod mwy o glefydau'n debygol o gynyddu anghydraddoldebau. | • Y potensial i flaenoriaethu mynediad i bobl oed gweithio er mwyn lleihau niwed anuniongyrchol a cholli cynhyrchiant yn y gweithle, ond byddai hyn yn achosi problemau anghydraddoldeb oedran ac felly'n gofyn am benderfyniad gwleidyddol.<br>• Gellid canolbwyntio ar y cyflyrau sydd fwyaf tebygol o olygu bod pobl oedran gweithio yn gadael y gweithle, fel problemau cyhyrysgerbydol a phroblemau iechyd meddwl. | • Bydd yr ôl-groniad o ofal iechyd yn effeithio ar gyfraniad economaidd pobl oedran gweithio. Gallai effaith mynd i'r afael â hyn fel blaenoriaeth gael effaith ganolig i uchel ar y rheini y mae oedi yn y system gofal iechyd yn effeithio arnynt. |
| **4.** Cau lleoliadau gofal plant. | • Effaith fach ar drosglwyddo'r feirws er efallai y byddai rhai effeithiau o ran trosglwyddo rhwng oedolion sy'n gysylltiedig â'r plant. Mae plant ifanc yn aml yn asymptomatig a phur anaml yn sâl iawn oherwydd y o'r feirws. | • Dangoswyd bod gofal plant cynnar (o ansawdd uchel) yn arwain at fanteision o ran datblygu sgiliau gwybyddol a heb fod yn wybyddol plant o gefndiroedd difreintiedig. Bydd cau lleoliadau gofal plant yn achosi niwed tymor byr a thymor hir ac yn achosi mwy o anghydraddoldebau.<br>• Er mai dim ond rhan fach o'r sector dan sylw yw addysg cyn-ysgol, mae dadansoddiad yn dangos y gallai gwerth presennol yr incwm oes is a allai ddeillio o golli wythnos o addysg cyn-ysgol fod oddeutu £5 miliwn.<br>• Mae niwed cymdeithasol ac economaidd anuniongyrchol yn deillio o'r tarfu ar gyflogaeth rhieni, gan gynnwys llai o gynhyrchiant ac anawsterau gweithio gartref gyda gofal plant, gydag effeithiau gwahanol rhwng dynion a menywod ac - mwy na thebyg - o ran lefelau incwm, ac mae'n bosibl y bydd canlyniadau niweidiol tymor hirach yn deillio o hyn. | • Gall cyngor a chanllawiau ychwanegol i rieni helpu i hybu datblygiad plant er bod amheuaeth ynghylch effeithiolrwydd hyn pan fydd rhieni'n ceisio cyfuno gweithio gyda gofal plant.<br>• Oni bai eu bod yn cael eu targedu, nid yw mesurau lliniaru a rhagor o gefnogaeth yn debygol o leihau anghydraddoldebau, ac mae'n bosibl iddynt eu cynyddu.<br>• Dylai lefel y niwed a'r cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer mesurau lliniaru olygu mai'r dewis olaf un yw cau lleoliadau gofal plant (oni bai fod hynny'n cael ei wneud am gyfnod cyfyngedig iawn). | • Caiff cyngor ac arweiniad ei roi i rieni mewn nifer o feysydd ond mae'r nifer sy'n manteisio ar hyn yn aml yn amrywio: effaith isel.<br>• Mae hi'n hanfodol targedu'r mesurau lliniaru'n effeithiol a darparu rhagor o gefnogaeth i rieni er mwyn cael yr effaith fwyaf o'r arian a ddefnyddir - heb hyn, bydd yr effaith yn isel.<br>• Mae cau lleoliadau gofal plant yn effeithio'n niweidiol ar blant ac ar rieni. Maen nhw hefyd yn gallu gwaethygu anghydraddoldebau'n sylweddol gyda phrin dim cyfle i gael mesurau lliniaru, os o gwbl. |
| **5.** Darparu canllawiau neu osod cyfyngiadau ar symudiadau pobl. Gallai hyn gynnwys gofyn i | • Mae'r dystiolaeth hyd yma yn awgrymu bod mesurau o'r fath yn gallu lleihau lledaeniad heintiau gydag effeithiau cymharol gyfyngedig ar wariant defnyddwyr.<br>• Bydd llai o deithio yn arwain at fanteision amgylcheddol ac yn | • Bydd llai o weithgarwch cymdeithasol yn cynyddu unigrwydd a theimlo'n ynysig, yn lleihau llesiant ac yn niweidio iechyd meddwl - ac o bosibl iechyd corfforol - gan gynnwys iechyd meddwl, camddefnyddio alcohol a chyffuriau, ac ymddygiad camdriniol a mwy o anweithgarwch corfforol. | • Mesurau ychwanegol i fynd i'r afael â theimlo'n ynysig drwy ddefnyddio technoleg – ond ansicrwydd ynghylch effeithiolrwydd a mynediad yn enwedig mewn grwpiau difreintiedig ac agored i niwed. | • Mae'n debygol y bydd y mesurau y gellir eu rhoi ar waith ddim cystal â chysylltiadau cymdeithasol arferol. Serch hynny gallai targedu ddarparu cymorth cyfyngedig i rai: effaith isel i ganolig. |

| Cyfyngiad | Manteision | Niwed | Mesurau lliniaru | Effaith bosibl y mesurau lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| rai grwpiau ‘aros gartref’, aros mewn ardal leol, rhwystro pobl rhag aros oddi cartref dros nos, neu gyfyngu ar adael neu ddod i mewn i’r ardal. | lleihau anafiadau damweiniol a marwolaeth.<br>• Cyfyngiadau teithio lleol: (ee rheol 5 milltir) Effaith isel i ganolig (**hyder isel**). Mae’n lleihau’r hadu i ardaloedd risg isel. Mae’r effaith yn dibynnu ar lefel hadu’r epidemig. Os yw’r epidemig eisoes yn gyffredin, yna bach iawn fydd mantais cyfyngiadau teithio mewnol. | • Mae ymchwil yn dangos bod unigrwydd ac arwahanrwydd yn ffactorau hanfodol sy’n dylanwadu ar lesiant goddrychol.<br>• Mae’r effeithiau’n debygol o fod yn anghyfartal iawn ac yn dibynnu’n drwm ar amgylchiadau unigolion. Mae’n debygol bod y gweithgarwch cymdeithasol anghyfartal sy’n deillio o hyn yn gysylltiedig ag anghydraddoldebau eraill (megis incwm a math o lety).<br>• Mae cyfyngiadau ynghylch peidio â gadael ardal awdurdod lleol yn cyfyngu mwy o bosibl ar bobl sy’n byw ar gyrion ffiniau awdurdodau lleol na phobl sy’n byw yng nghanol awdurdod lleol.<br>• Bydd pobl ifanc, gan gynnwys myfyrwyr, a phobl hŷn sy’n byw ar eu pen eu hunain mewn risg benodol.<br>• Ar gyfartaledd mae hi’n anoddach “gweithio gartref” mewn galwedigaethau incwm is, ac mae rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu y gallai polisïau “gweithio gartref” arwain at effeithiau cyflogaeth niweidiol ar grwpiau incwm is (yn rhannol drwy effeithiau anuniongyrchol ar wasanaethau cymorth).<br>• Bydd costau gwresogi uwch yn y cartref yn effeithio ar y rheini sy’n gweithio gartref ac ar incwm isel.<br>• Bydd manteision amgylcheddol llai o deithio yn cael eu gwrthbwyso’n rhannol gan ddefnyddio mwy o ynni yn y cartref.<br>• Bydd llai o weithgarwch economaidd yn arwain at niwed economaidd-gymdeithasol tymor byr a thymor hir sy’n gymesur i hyd y cyfyngiadau. | • Mewn egwyddor, mesurau ychwanegol i wella llythrennedd digidol, ond materion yn ymwneud ag amseroldeb ac effeithiolrwydd.<br>• Mewn egwyddor, rhagor o fesurau i wella gwasanaethau iechyd meddwl a mecanweithiau cymorth eraill y tu hwnt i’r ychwanegiadau sydd eisoes wedi’u rhoi ar waith – ond materion sy’n ymwneud ag amseroldeb / cyflenwi / fforddiadwyedd a chyfyngiadau oherwydd capasiti cyllidol Llywodraeth Cymru a rheolau cyllidol llywodraeth y DU.<br>• Mewn egwyddor, mesurau ychwanegol i wella ansawdd tai – ond materion yn ymwneud ag amseroldeb / cyflenwi / fforddiadwyedd a chyfyngiadau oherwydd capasiti cyllidol Llywodraeth Cymru a rheolau cyllidol llywodraeth y DU.<br>• Mesurau ychwanegol i fynd i’r afael â thlodi tanwydd mewn aelwydydd incwm isel.<br>• Gall mesurau lliniaru mwy effeithiol gynnwys eithriadau ar gyfer grwpiau penodol y credir eu bod mewn risg uchel (fel y’u cyflwynwyd ar gyfer pobl sy’n byw ar eu pen eu hunain).<br>• Mewn egwyddor gallai canlyniadau economaidd niweidiol gael eu lliniaru’n rhannol drwy gefnogi busnesau i gadw swyddi a chreu swyddi newydd, gan ganolbwyntio ar bobl ifanc, yn enwedig y rheini o grwpiau difreintiedig (gweler isod hefyd). Fodd bynnag, mae camau gweithredu o’r fath yn cael eu cyfyngu gan yr her o nodi swyddi “hyfyw” a fforddiadwyedd a chyfyngiadau a osodir gan gapasiti cyllidol Llywodraeth Cymru a rheolau cyllidol llywodraeth y DU. | • Yn y tymor byr, mae effaith ymarferol mesurau i fynd i’r afael â llythrennedd digidol yn isel.<br>• Mae mesurau i wella iechyd meddwl yn debygol o gael effaith isel o fewn yr amserlen berthnasol.<br>• Mae gwella ansawdd tai yn broblem hirdymor ond mae’r effaith tymor byr yn debygol o fod yn isel.<br>• Mae modd cyflawni mesurau wedi’u targedu i fynd i’r afael â thlodi tanwydd yn y tymor byr a gyda chyllid ychwanegol, aseswyd eu bod yn ganolig i uchel.<br>• Gwelwyd bod cyllid gan y llywodraeth i fynd i’r afael â’r effeithiau niweidiol ar fusnesau ac ar swyddi yn cael effaith fawr i ddechrau. Gall y ddwy her o ran hyfywedd a fforddiadwyedd yn y tymor hirach olygu bod y lefel angenrheidiol o gymorth yn anymarferol. |
| **6.** Cyfyngiadau ar gwrdd dan do (gan gynnwys cyfyngu ar nifer yr aelwydydd sy’n cael cwrdd) | • Effaith ganolig (**hyder canolig**). Risg uchel o drosglwyddo mewn aelwydydd oherwydd defnynnau, aerosolau a throsglwyddo drwy arwynebau sy’n cael eu rhannu. Er bod yr opsiynau’n gyfyngedig i reoli’r trosglwyddo mewn aelwydydd, dim ond os oes cadwyni trosglwyddo rhwng aelwydydd mae modd cynnal | • Bydd llai o weithgarwch cymdeithasol yn lleihau llesiant ac yn niweidio iechyd meddwl – ac o bosibl iechyd corfforol.<br>• Mae’r effeithiau’n debygol o fod yn anghyfartal ac yn dibynnu’n drwm ar amgylchiadau unigolion. Mae’n debygol bod y gweithgarwch cymdeithasol anghyfartal sy’n deillio o hyn yn gysylltiedig ag | • Gall mesurau lliniaru effeithiol gynnwys eithriadau ar gyfer grwpiau penodol y credir eu bod mewn risg uchel.<br>• Mewn egwyddor, buddsoddiad ychwanegol mewn gweithgarwch awyr agored, ond materion yn ymwneud ag amseroldeb, effeithiolrwydd a chost. | • Gweithgarwch cymdeithasol yw un o’r meysydd mwyaf heriol gan fod hyn yn brif ffocws o'r cyfyngiadau i atal y feirws rhag lledaenu. Mae anawsterau ychwanegol yn ystod y gaeaf pan na fydd modd cynnal llawer o weithgareddau awyr agored. Mae effaith bosibl mesurau |

| Cyfyngiad | Manteision | Niwed | Mesurau lliniaru | Effaith bosibl y mesurau lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| | epidemig. Mae data'n dangos cyfraddau uchel o ymosodiadau eilaidd (hyd at 40%) rhwng aelodau o'r un aelwyd. Roedd gwaith modelu ar gyfer llacio'r cyfyngiadau symud wedi dod i'r casgliad bod caniatáu i unrhyw un aelwyd gysylltu â mwy nag un aelwyd arall yn cynyddu R yn sylweddol. Gallai stopio pob cyswllt rhwng aelwydydd gwahanol yn y cartrefi leihau Rt ~0.1-0.2. Bach iawn yw effaith creu swigod gydag aelwydydd lle mae un person yn byw.<br>• Mae brigiadau o achosion covid wedi bod yn gysylltiedig â phartïon tŷ yng Nghymru. | anghydraddoldebau eraill (megis incwm a math o lety).<br>• Efallai y bydd rhai pobl yn fwy tueddol o ymddwyn yn beryglus megis yfed gormod o alcohol neu ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon.<br>• Mae'r rheini heb fynediad at erddi, boed hynny oherwydd lleoliad neu anfantais ariannol (ni allant fforddio mannau dan do masnachol, neu nid oes caffi/tafarn leol, anawsterau gyda phlant bach etc) yn wynebu mwy o gyfyngiadau ac yn teimlo'n fwy ynysig. Ni fydd ymestyn y cartref i gynnwys opsiynau gardd i lawer yn ateb i bawb | • Mesurau i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau | lliniaru yn debygol o fod yn isel heb lacio sylweddol.<br>• Ac ystyried cost a phrydlondeb buddsoddi mewn gweithgareddau awyr agored, mae'n debygol mai isel fydd yr effaith. Gellir sicrhau'r lefel fwyaf drwy geisio cael cydbwysedd gwell rhwng lefel y cyfyngiadau ar weithgareddau dan do ac yn yr awyr agored. |
| **7.**<br>Cau AU a/neu AB | • Effaith ganolig (**hyder canolig**). Llai o ddata nag o ysgolion, er bod myfyrwyr yn hŷn ac felly'n fwy tebygol o fod yn heintus. Trosglwyddo cryptig gan unigolion asymptomatig yn debygol. Mae llawer o rwydweithiau mewn AU drwy gysylltu aelwydydd, lleoliadau AU a gweithleoedd, ond mae hyn yn tueddu i fod yn lleol.<br>• Ceir tystiolaeth o'r Unol Daleithiau fod cyfraddau covid yn uchel mewn trefi colegau a bod y feirws yn trosglwyddo rhwng myfyrwyr a phoblogaethau sy'n fwy agored i niwed, ond mae'n ymddangos bod llawer o'r brigiadau o achosion ymysg myfyrwyr y DU wedi cael eu rheoli'n dda o fewn y boblogaeth myfyrwyr. | • Effeithiau tebyg i gau ysgolion, er mae'n debyg y bydd yr effeithiau'n llai niweidiol oherwydd bod mwy o gyfle i liniaru.<br>• Mae gwaith modelu'n gallu rhoi darlun o drefn maint is-set o effeithiau ond bydd llawer o ansicrwydd ynghlwm wrth hynny.<br>• Er enghraifft:<br>  ○ gallai cau AB ac AU am wythnos heb fesurau lliniaru arwain at enillion economaidd is i addysg (incwm oes) sydd werth tua £30 miliwn ar hyn o bryd.<br>• Ar gyfartaledd, mae cau AB yn debygol o effeithio'n fwy uniongyrchol ar grwpiau incwm is na chau AU.<br>• Tystiolaeth o fwy o effaith ar iechyd meddwl pobl ifanc 12-24 oed. Mae cyfyngiadau'n gwneud i bobl deimlo'n fwy ynysig drwy atal cyswllt i wneud ffrindiau newydd, mae llai o ddysgu wyneb yn wyneb os o gwbl a bod i ffwrdd o gartref eisoes yn effeithio ar iechyd meddwl, teimlo'n ynysig a'r gallu i astudio.<br>• Mae cau AU yn debygol o gael mwy o effaith ar y myfyrwyr hynny o grwpiau incwm is a chydag effeithiau cysylltiedig ar incwm aelwydydd os byddant yn dychwelyd adref. Gall diweithdra a cholli budd-daliadau myfyrwyr arwain at ddefnyddio'r system les.<br>• Gallai'r effaith ariannol fod yn uchel – mewn rhai amgylchiadau gallai arwain at gau Sefydliadau Addysg Uwch/Sefydliad Addysg Bellach yn barhaol, ond rhai effeithiau gwrthbwyso hefyd gan | • Fel ysgolion, ond efallai y bydd defnyddio mwy o ddysgu o bell yn fwy ymarferol mewn rhai lleoliadau.<br>• Cynnydd mewn cymorth ariannol a llesiant myfyrwyr gan fod myfyrwyr wedi'u cyfyngu i lety ac yn methu gwneud ffrindiau.<br>• Dylai lefel y niwed a'r cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer mesurau lliniaru olygu mai'r dewis olaf un yw cau lleoliadau AU (oni bai fod hynny'n cael ei wneud am gyfnod cyfyngedig iawn). | • Mae dysgu o bell yn fwy ymarferol i fyfyrwyr hŷn ond nid yw'n cymryd lle profiadau dysgu yn yr ystafell ddosbarth a dysgu cymdeithasol. Asesir bod yr effaith yn isel i ganolig.<br>• Mae hi'n haws gwneud iawn am gymorth ariannol na phrofiad cymdeithasol ac asesir bod yr effaith yn isel i ganolig. |

| Cyfyngiad | Manteision | Niwed | Mesurau lliniaru | Effaith bosibl y mesurau lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| | | fod pobl ifanc yn fwy tebygol o aros mewn addysg yn ystod cyfnod o wendid (a ddisgwylir) yn y farchnad lafur.<br>• Effaith ar iechyd meddwl os na all myfyrwyr ddychwelyd adref.<br>• Risg uwch o fyfyrwyr yn gadael gan arwain at statws NEET a cholli incwm i'r sefydliadau a chau ac mae'r fantais yn tybio pan fydd pobl yn astudio o bell oherwydd cau nid ydynt yn ymddwyn yn beryglus (grwpiau'n cwrdd mewn aelwydydd a phartïon etc) wrth astudio o bell | | |
| **8.**<br>Gofyniad i warchod. | • Effaith isel ar drosglwyddo'r feirws ar lefel y boblogaeth.<br>• Effaith ganolig bosibl ar y risg o fynd i'r ysbyty a marwolaethau mewn unigolion sy'n gwarchod. | • Llai o niwed economaidd-gymdeithasol yn debygol o'i gymharu â rhai cyfyngiadau eraill.<br>• Fodd bynnag, cynnydd mewn teimlo'n ynysig yn gymdeithasol, unigrwydd a phroblemau iechyd meddwl cysylltiedig.<br>• Goblygiadau niweidiol posibl i anghydraddoldebau oed, iechyd ac incwm. | • (Yn amlwg) bydd lleihau ardal a hyd y gofynion yn lliniaru'r effeithiau niweidiol.<br>• Mae mesurau lliniaru ar gyfer ynysu cymdeithasol yn cael eu hystyried uchod. | • Mae niwed sylweddol yn deillio o gyfnodau hir o warchod, yn enwedig i'r rheini sy'n ynysig. Gallai lleihau'r ardal a'r hyd gael effaith ganolig i uchel os yw hynny'n ymarferol. |
| **9.**<br>Cyfyngu ar systemau trafnidiaeth drwy gyfyngu ar pryd caiff unigolion ddefnyddio trafnidiaeth neu fynd i mewn i ardal neu ei gadael, cau canolfannau trafnidiaeth yn gyfan gwbl, neu gyflwyno cyfyngiadau ar wasanaethau trafnidiaeth. | • Effaith isel – tra bydd lefelau gorlenwi ar drafnidiaeth gyhoeddus yn parhau'n isel a'i bod yn rhaid gwisgo masg. Ar ben hynny, roedd tystiolaeth amhendant o'r risg o drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer trosglwyddo salwch tebyg i'r ffliw. Nid yw'n debygol y bydd cyfyngu rhagor ar ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn lleihau'r trosglwyddiad cyffredinol. **Hyder canolig** | • Bydd llai o weithgarwch cymdeithasol yn lleihau llesiant ac yn niweidio iechyd meddwl – ac o bosibl iechyd corfforol.<br>• Mae'r niwed economaidd yn dibynnu ar natur y cyfyngiadau.<br>• Mae effeithiau niweidiol ar gydraddoldeb gan fod pobl ar incwm is a llawer o grwpiau lleiafrifol yn fwy tebygol o ddefnyddio bysiau at ddibenion cyflogaeth a chymdeithasol. Pobl heb geir a gerddi fydd yn gweld y golled fwyaf.<br>• Effeithiau niweidiol posibl os bydd newid moddol tuag at drafnidiaeth breifat yn y pen draw.<br>• Mae pwysau ar hyfywedd economaidd rhai darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus oherwydd llai o refeniw, yn enwedig gwasanaethau rheilffyrdd TrC sy'n cael eu hariannu'n drwm gan Lywodraeth Cymru. | • Byddai eithriadau i weithwyr yn lleihau niwed economaidd.<br>• Byddai eithriadau ar gyfer (rhywfaint o) deithio ar fysiau yn lleihau effeithiau niweidiol ar gydraddoldeb.<br>• Mewn egwyddor, mwy o fuddsoddiad mewn teithio llesol, ond materion yn ymwneud ag amseroldeb, effeithiolrwydd a chost.<br>• Ystyried blaenoriaethu cefnogaeth ar gyfer elfennau allweddol o ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus. | • Gallai eithriadau arwain at fanteision mawr i grwpiau penodol.<br>• Mae buddsoddi mewn teithio llesol yn debygol o arwain at fanteision isel o fewn yr amserlen berthnasol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **10.** Cyfyngiadau ar gwrdd yn yr awyr agored, gan gynnwys gwahardd digwyddiadau mawr. | • Bydd manteision y cyfyngiadau yn dibynnu ar ba mor aml caiff digwyddiadau mawr eu cynnal, y nifer a fydd yn bresennol, pa mor debygol yw hi y bydd pobl sâl yn bresennol, dan do yn hytrach nag yn yr awyr agored, canu a gweiddi, gallu olrhain cysylltiadau, a phobl hŷn neu agored i niwed sy'n bresennol.<br>• Mae disgwyl y bydd R yn disgyn rhwng 0.05-0.3 gan ddibynnu ar yr awyru a ffactorau eraill. Nid yw SARS-CoV2 yn gallu para'n hir mewn ardaloedd yn yr awyr agored sydd wedi'u hawyru'n dda. **Hyder uchel**. Nid yw'r feirws yn goroesi cymaint o dan olau UV, fodd bynnag gallai'r effaith hon fod yn llai yn y gaeaf. Mae digwyddiadau/grwpiau mawr yn gallu hadu heintiau mewn cymunedau a rhyngddynt, ac maen nhw'n gysylltiedig â brigiadau o achosion. ~2% o achosion oherwydd bod dros 50 o bobl yn cwrdd ond gallai'r cyfyngiadau presennol effeithio ar hyn. Efallai fod teithio yn ôl ac ymlaen i ddigwyddiadau a defnyddio tafarndai a chyfleusterau eraill a rennir wrth law fod yn bwysicach. | • Canlyniadau economaidd niweidiol (fel uchod), ond cymharol fach yn eu cyd-destun. | • Cymorth ariannol wedi'i dargedu ar gyfer busnesau yr effeithir arnynt. | • Gellid lliniaru effeithiau sylweddol ar y busnesau hynny yn y sector yn rhannol drwy gymorth ariannol yn y tymor byr: effaith uchel bosibl |
| **11.** Gofyniad i'r holl boblogaeth, neu grŵp sylweddol, ddefnyddio gorchuddion wyneb, ym mhob man cyhoeddus neu mewn lleoliad penodol. | • Costau economaidd a chymdeithasol isel wrth gymharu â nifer o fesurau eraill.<br>• Mae tystiolaeth dda mewn lleoliadau clinigol a labordy sy'n dangos bod masgiau yn atal trosglwyddo'r feirws drwy aerosolau. | • Er bod gwisgo masgiau yn gallu cynyddu ymddygiad peryglus, mae mwy a mwy o dystiolaeth o wledydd eraill yn dangos y gallai'r effeithiolrwydd net lleihau fod yn uchel o ran lleihau'r lledaeniad. Fodd bynnag nid ydym wedi gweld unrhyw effaith glir ar drosglwyddo yng Nghymru ar ôl gorfodi pobl i wisgo gorchudd wyneb mewn siopau ers 11[eg] Medi 2020.<br>• Mae niwed posibl oherwydd gallai pobl ac yn enwedig y rheini sy'n ei chael hi'n anghyfforddus neu'n anodd gwisgo masg beidio â chymryd rhan | • Dosbarthu masgiau am ddim fel safon derbyniol, efallai wedi'i dargedu at grwpiau difreintiedig.<br>• Defnyddio "arwydd" amlwg o eithrio (a allai hefyd helpu gyda'r gwaith i orfodi pobl i wisgo masg gan efallai gyfrannu at effeithiolrwydd y cyfyngiad).<br>• Datblygu a defnyddio masgiau tryloyw.<br>• Codi ymwybyddiaeth o fasgiau fel perygl biocemegol a diogelu'r amgylchedd | • Mae masgiau am ddim yn debygol o gael effaith fawr ar y rheini sy'n cael eu targedu.<br>• Aseswyd bod effaith masgiau tryloyw yn uchel ar gyfer y rheini sydd angen eu defnyddio.<br>• Gall codi ymwybyddiaeth gael effaith isel i ganolig ar achosi sbwriel. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | mewn gweithgareddau (gan gynnwys y rheini sydd wedi colli eu clyw).<br>• Stigmateiddio poblogaeth sydd wedi'i heithrio.<br>• Cost masgiau i bobl ar incwm isel.<br>• Sbwriel. | | |
| **12.**<br>Y gofyniad i hunanynysu a chefnogaeth i wneud hynny. | • Gallai gael effaith fawr ar Rt os bydd mwy o bobl yn hunanynysu cyn heintio pobl eraill ond nid oes gennym amcangyfrif manwl o'r effaith ar Rt ar hyn o bryd.<br>• Mae tystiolaeth o wledydd eraill yn awgrymu bod mwy o bobl yn hunanynysu yn y gwledydd sy'n cynnig llawer o gefnogaeth i bobl wneud hynny ee gweithwyr sy'n cael eu talu i hunanynysu. | • Mae dadansoddiad cost a budd sylfaenol (a dadansoddiad cymharol ar draws gwledydd) yn awgrymu bod cymhellion ariannol i hunanynysu yn debygol o gynnig manteision net. Mae'n debygol y byddai felly'n gosteffeithiol codi Tâl Salwch Statudol, ac ymestyn y gefnogaeth i bobl hunangyflogedig, hyd yn oed os caiff hynny ei wneud dros dro yn unig, yn enwedig gan fod gan y DU un o'r systemau lleiaf hael yn y byd datblygedig.<br>• Gallai hefyd fod yn gosteffeithiol ehangu'r taliadau cymorth untro hefyd fel ail ddewis gorau.<br>• Gallai'r effeithiau economaidd gynyddu wrth i niferoedd yr achosion barhau i godi.<br>• Gallai llai o lafur yn y tymor byr effeithio ar fusnesau, ond gallai fod yn fantais dros y tymor canolig i'r tymor hir os bydd yr estyniad yn llwyddo i leihau nifer yr achosion.<br>• Gallai'r estyniad effeithio'n fwy ar swyddi a sectorau lle mae gweithio gartref yn llai ymarferol, ee llety a bwyd; trafnidiaeth a storio, cyfanwerthu a masnach fanwerthu etc.<br>• Gallai hefyd effeithio ar y galwedigaethau sy'n wynebu'r risg uchaf o ddal yr haint, yn y proffesiynau meddygol yn bennaf.<br>• Mae gweithwyr ac unigolion nad oes ganddynt gymhelliant ariannol o bosibl i gydymffurfio â'r cyngor yn cynnwys pobl nad oes ganddynt hawl i gael tâl salwch, fel pobl hunangyflogedig a'r rheini sydd ar gontractau dim oriau. Gallai fod gan weithwyr ar gyflogau is a gweithwyr nad ydynt yn gallu gweithio gartref gymhellion tebyg hefyd. | • Cymorth ariannol i gwmnïau a phobl hunangyflogedig; Tâl Salwch Statudol i weithwyr | • Bydd darparu cymorth ariannol yn cael effaith uchel os bydd y lefel yn ddigonol.<br>• Gall technoleg profi newydd gynnig cyfle i leihau'r cyfnod hunanynysu ar gyfer cysylltiadau achosion sydd wedi cael canlyniad positif a theithwyr sy'n dychwelyd adref. |

# Atodiad 1

## Amcangyfrif o effaith economaidd wythnosol cau sectorau penodol yn llwyr (£m)

Mae'r gwerth ychwanegol gros uniongyrchol yn golygu gwerth yr allbwn sy'n cael ei golli mewn busnesau sydd ar gau.

Mae cyfanswm y gwerth ychwanegol gros yn golygu gwerth yr allbwn sy'n cael ei golli gan gynnwys yr effaith ar y gadwyn gyflenwi.

Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar ffigurau Gorffennaf 2020 y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

| **Cymru** | **Gwerth ychwanegol gros uniongyrchol** | **Cyfanswm y gwerth ychwanegol gros** |
|---|---:|---:|
| Masnach fanwerthu (1) | **70** | **103** |
| *manwerthu "nad yw'n hanfodol" (2)* | **26** | **41** |
| Trafnidiaeth ar dir, ar ddŵr a hedfan (3) | **18** | **35** |
| Llety a gweithgareddau gwasanaethau bwyd (4) | **38** | **64** |
| *gweithgareddau gwasanaethau bwyd (5)* | **31** | **52** |
| Gweithgareddau prynu a gwerthu eiddo, heb gynnwys eiddo rhent wedi'i briodoli (6) | **37** | **52** |
| Y celfyddydau, adloniant a hamdden (7) | **14** | **22** |
| Gweithgareddau gwasanaethau personol eraill (8) | **14** | **17** |
| **CYFANSWM 2+5+7+8** | **86** | **133** |

## Nodiadau

Mae'n tybio mai polisi sy'n gyfan gwbl gyfrifol am golli allbwn.

Ffigurau bras.

Mae amcangyfrifon hefyd ar gael ar gyfer awdurdodau lleol.

Ar werthoedd safonol NICE, ac mewn ffigurau wedi'u talgrynnu, byddai'r effaith wythnosol ar gyfanswm y gwerth ychwanegol gros yn cyfateb i o leiaf 300 o fywydau deng mlynedd.